

BAGLORIAETH CYMRU TYSTYSGRIF HER SGILIAU Cenedlaethol/Sylfaen

Her Menter a Chyflogadwyedd Her Buddugoliaeth i Felindre



Ar gael i'w asesu o fis Medi 2021

Buddugoliaeth i Felindre

DIBEN

Diben yr Her Menter a Chyflogadwyedd yw meithrin sgiliau dysgwyr, gan ddarparu cyfleoedd i ddsygwyr feithrin sgiliau a phriodoleddau mentrus a gwella cyflogadwyedd ar yr un pryd. Yn ystod yr Her Menter a Chyflogadwyedd, bydd dysgwyr yn meithrin sgiliau penodol ym meysydd **Creadigrwydd ac Arloesi, Effeithiolrwydd Personol a Llythrennedd Digidol**, ac yn eu rhoi ar waith mewn modd priodol.

BRIFF

Mae **Canolfan Ganser Felindre** wedi bod yn darparu gofal a thriniaeth gefnogol arbenigol i gleifion cancer yng Nghymru ers dros 60 mlynedd. Mae **Ysbyty Gobaith** yn arwain ar dreialon clinigol arloesol ac ymchwil rhyngwladol. Mae mwy o bobl nag erioed yn byw gyda chanser – mae cyfraddau goroesi wedi dyblu yn y 40 mlynedd diwethaf o ganlyniad i well triniaethau a chanfod canser yn gynharach. Mae ein **Hysbyty Gobaith** yn darparu gobaith i'n holl gleifion a'u teuluoedd.



Cydnabyddir **Felindre** fel y brif Ganolfan Ganser yng Nghymru, ac ar hyn o bryd mae'n trin dros 1.5 miliwn o bobl yn Ne Ddwyrain Cymru a thu hwnt. Ein nod yw darparu'r gofal gorau, pan mae ar bobl ein hangen fwyaf.

Buddugoliaeth dros Ganser yw ein prif nod yn Felindre, a gyda'ch help chi, gallwn gyrraedd y nod honno'n gyflymach drwy ymchwil arloesol a threialon clinigol. Dewch yn rhan o deulu Felindre a helpwch i wneud gwahaniaeth drwy ymgymryd â **Her Buddugoliaeth i Felindre**.

Dewis **Her Buddugoliaeth i Felindre** fydd eich cyfle i'n helpu i gynorthwyo'r rhai sy'n wynebu diagnosis canser. Dylech chi a'ch tîm (3-6 aelod) ddefnyddio eich ymchwil i **Felindre** i gynhyrchu cynnyrch neu wasanaeth y gellid ei werthu i godi arian i'r elusen. Mae ein tîm gwybodus wrth law i gynnig help ac i'ch cefnogi chi, eich tîm a'ch ysgol os oes angen.

Ewch â'r Her ymhellach?

Drwy gymryd rhan yn **Her Buddugoliaeth i Felindre** cewch gyfle i fynd â'ch syniad i gystadleuaeth flynyddol lle gallai eich cynnyrch neu wasanaeth ddod yn realiti, ac y bydd modd ei werthu i godi arian ar gyfer Felindre. Ai chi yw enillydd nesaf Gwobr Shane Williams am Greadigrwydd, neu Wobr Sam Warburton am Gyflwyno? Gofynnwch i'ch athrawon gysylltu â thîm Felindre am fwy o wybodaeth.

ADNODDAU

<http://www.velindrefundraising.com>

MANYLION CYSWLLT

I gael rhagor o wybodaeth a chefnogaeth, cysylltwch â:
Lucesca Walters – Lucesca.Walters@wales.nhs.uk